

ADRODDIAD EFFATH BLYNYDDOL 2018/19

*Cefnogi
Hyrwyddo a
Datblygu
Gweithgareddau
Gwirfoddol a
Chymunedol*





Ymddiriedolwyr FLVC Marjorie Thomson a Paul Hinchliffe yn croesawu Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint, y Cyng. Paul Cunningham, a'i gyfarfod Blynyddol 2018.

CYNNWYS

Ein Staff ac Ymddiriedolwyr	3
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint	4
Adroddiad y Cadeirydd	5
Adroddiad y Prif Swyddog	6
Gwirfoddoli	7-8
Llywodraethu Da	9
Cyllid Cynaliadwy	10
Cydweithio a Dylanwadu	11-12
Cyfrifon FLVC 2018/19	14

EIN HYMDDIRIEDOLWYR

Ers Ebrill 2018

Marjorie Thomson - Cadeirydd
Wendy Carter
Clive Bracewell
Barbara Roberts
John Hatton
Jane Styles
Rhianon Bidwell

Paul Hinchliffe - Is-gadeirydd
Tim Byram
Liz Holland
Pip Perry MBE
Angela Garbett
Amanda Morgan - Cynghorydd

EIN STAFF

Ers Ebrill 2018

Ann Woods
Chris Ablett
Claire Trevor
Debbie Long
Debbie Thomson
Emma Gough
Fran Hughes
Hayley Hill
Heather Hicks
Jan Owen
Jill Blandford
Jane Hewson
John Gray
June Brady
Karen Peters
Kate Howard
Pam Bebbington
Rachael Partington
Shaun Darlington
Sheila Bacon

Prif Swyddog
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli
Cydlunydd y Trydydd Sector (Hwb Cynmorth Cynnar)
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli
Cydlunydd y Trydydd Sector (Rhagnodi Cymdeithasol)
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli
Swyddog Datblygu Llesiant
Rheolwr Llesiant
Swyddog Allgymorth Cyllido
Rheolwr Canolfan Gwirfoddoli
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli
Gweinyddwr Cyfathrebu
Swyddog Gwybodaeth a Chyngor
Swyddog Allgymorth Cyllido
Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Gweinyddwr SA
Cydlunydd y Trydydd Sector (SPoA)
Swyddog Cefnogi Corlan
Gweinyddwr y Canolfan Wirfoddoli
Rheolwr Busnes a Chyllid
Cynorthwydd Cyllid


Dyluniad ac wedi ei argraffu gan Claire Doughty @ Double Click Design & Print CIC

CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT

Rhif Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3301204 | Rhif Cofrestru'r Elusen 1062644

Swyddfa Gofrestredig: CORLAN, Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Y Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1XP

Ffôn: 01352 744000 | info@flvc.org.uk | www.flvc.org.uk | facebook.com/flvcpage | [twitter @FLVCnews](https://twitter.com/FLVCnews)



CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT -

Rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru

CEFNDIR...

CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT (FLVC) ydy'r mudiad ymbarél a chefnogi ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint. Mae'n un o'r 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVCs) yng Nghymru a bu iddyn nhw ddechrau gweithredu ym 1997. Mae FLVC yn elusen gofrestredig (1062644) ac yn gwmni cyfyngedig (3301204). Mae hyd at 15 gyfarwyddwyr ymddiriedolwyr yn rhan o'r mudiad, o'r sector gwirfoddol lleol yn bennaf ynghyd ag 16 aelod o staff, rhan amser a llawn amser. Ers 2008, bu FLVC yn CORLAN ym Mharc Busnes Yr Wyddgrug.

Mae **FLVC** yn meddu ar dros 1200 o gysylltiadau gwirfoddol a chymunedol ar eu cronfa ddata ac mae ganddyn nhw dros 300 o aelodau. Mae FLVC yn derbyn eu cyllid gan sawl ffynhonnell, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Teuluoedd yn Gyntaf, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB). Mae FLVC hefyd yn cynhyrchu incwm drwy rentu swyddfeydd yn CORLAN.

Rydym yn rhan o rwydwaith mewnol Cefnogi Trydydd Sector Cymru wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ein nod ar y cyd ydy cynnig cyfle i wirfoddolwyr y trydydd sector ledled Cymru i gyfrannu'n gyfan gwbl at lesiant unigol a chymunedol, ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol.

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhwydwaith o fudiadau cefnogi ar gyfer y trydydd sector cyflawn yng Nghymru. Mae'n gyfuniad o'r 19 corff cefnogi lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a'r corff cefnogi cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Rydym yn cydweithio gyda thrigolion, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector i

gydnabod a mynd i'r afael â hynny sy'n bwysig iddyn nhw. Er mwyn cyflawni ein nod ar y cyd, rydym yn cydweithio gyda phartneriaid allweddol eraill sy'n rhan o'r trydydd sector, y sector cyhoeddus, o'r meysydd busnes ac ymchwil, ynghyd ag arianwyr.

Rydym yn ymwneud â phedwar maes gwaith, sef:

- Gwirfoddoli
- Llywodraethu Da
- Cyllid Cynaliadwy
- Cydweithio a dylanwadu

Mae ein gwaith yn canolbwyntio'n eang ar y themâu cyffredin canlynol:

- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Siapio, dylanwadu ar a datblygu cyfalaf cymdeithasol a hydwythdedd y sector
- Hyrwyddo'r sector

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Hoffwn eich croesawu i fy Adroddiad y Cadeirydd cyntaf ers imi gymryd yr awenau ym mis Medi 2018.

Bu unwaith eto yn gyfnod heriol dros ben i'r Trydydd Sector ac FLVC. Bu hi'n ddwy flynedd ansicr ynghylch lle byddwn yn gweithio ers i'n prydles yn y Gorlan ddod i ben ym mis Mai 2018. Wedi bwrw golwg ar amrywiaeth o adeiladau eraill, cafodd adeilad y Gorlan ei werthu'n gynharach eleni. Bu inni lwyddo i gytuno ar brydles newydd gyda'r perchnogion newydd ar gyfer y rhan o'r Gorlan mae FLVC yn gweithio ynddi, yn hytrach na'n bod ni'n gyfrifol am yr holl adeilad. Gall FLVC fynd ati rŵan i ganolbwyntio ar ein gweithgareddau craidd a chydweithio gydag a chefnogi mudiadau Trydydd Sector a Gwirfoddolwyr yn Sir y Fflint. Mae yna dal broblemau ynghylch sicrhau digon o gyllid ond rydym yn cydweithio gydag ystod o fudiadau er mwyn gofalu ein bod yn defnyddio'r cyllid rydym yn ei dderbyn yn y ffordd orau a mwyaf cost-effeithiol posib. Rydym yn gobeithio y bydd rhai ffrydiau cyllid yn y dyfodol yn para am fwy na'r cyfnod safonol o 12 mis.

Fel aelod o'r Isadeiledd Cenedlaethol, **Cefnogi Trydydd Sector Cymru**, rydym erbyn hyn yn meddu ar weithdrefnau monitro a gwerthuso mwy llym sy'n help inni ofalu ein bod yn cynnig gwasanaethau cefnogi o safon i grwpiau ac unigolion ledled Sir y Fflint. Gofynnwn yn garedig ichi dreulio ychydig o'ch amser yn cwblhau ein harolwg effaith ar-lein os ydych chi wedi manteisio ar unrhyw fath o gefnogaeth gan ein swyddogion. Bydd y ddolen ar y rhan fwyaf o ohebiaeth gan FLVC, neu gallwn anfon y ddolen ar wahân os hoffech chi. Mae'r arolwg yn anhysbys a byddwn yn cyflwyno'r holl ymatebion gerbron Bwrdd FLVC.

Ym mis Mawrth, roedd yn bleser gen i fynychu seremoni Cyhoeddi **Uwch Siryf Newydd Clwyd**, sef Stephanie Catherall, yn Eglwys Sant Deiniol ym Mhenarlâg. Bu i Stephanie ymweld â FLVC ar ddechrau ei blwyddyn yn y swydd a bu iddi rannu ei nodau ac uchelgeisiau ar gyfer ei blwyddyn fel Uwch Siryf. Roeddem wrth ein bodd o ganfod gan Stephanie ei bod hi wedi dewis Gwirfoddoli fel un o'i blaenoriaethau gwaith ar gyfer 2019/20.

I continue to be amazed and delighted by the Rydw i'n parhau i gael fy synnu a fy mhlesio'n fawr gan waith caled a phroffesiynoldeb Tîm FLVC. Maen nhw'n parhau, yn ddyddiol, i ddangos

gwydnwch a pharodrwydd i ymgyfaddasu drwy gydweithio gydag ystod o Wirfoddolwyr a chyrrff eraill ledled Sir y Fflint. Rhwch wybod inni os gallwn eich cynorthwyo gydag eich anghenion hyfforddi neu gefnogi yn eich mudiad.

Mae FLVC yn cynnig cefnogaeth sy'n fodd o hwyluso cydweithio priodol a dylanwadu ar gyrff llywodraethu sector cyhoeddus perthnasol drwy ddysgu a datblygu perthnasau budd ar y cyd. Mae **Compact Sir y Fflint** yn parhau i ofalu bod Cyngor Sir y Fflint a'r Bwrdd lechyd yn cynnal trafodaethau strategol rheolaidd ac effeithiol gyda chynrychiolwyr Trydydd Sector.

Diolch o galon ichi am roi o'ch amser i ddysgu mwy am FLVC. Hoffem hefyd dreulio amser yn dysgu mwy am eich gwaith chi. Eleni, bu ein hymweliadau **'Gwrando a Dysgu'** yn gyfle i staff FLVC ymweld â grwpiau cymunedol i ddysgu am eu gwaith a gweld oes modd inni helpu a/neu gysylltu grwpiau gydag adnoddau a phartneriaethau dichonol a all fod o fudd i'w gwaith. Cysylltwch gydag aelod o dîm staff FLVC os hoffech chi inni alw heibio am sgwrs gyda chi a/neu eich tîm. (Os ydych chi'n fudiad aelod, bydd gwahoddiad ar gyfer ymweliad Gwrando a Dysgu yn y ddogfennaeth ar gyfer adnewyddu eich aelodaeth).

Mae mymryn o seddi gwag ar ein Bwrdd eleni – hoffai eich mudiad chi eich enwebu i gynrychioli'r Trydydd Sector fel **ymddiriedolwr FLVC?** Hoffem ddenu pobl i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr o bob cwr o'r Sir ac o bob math o gefndiroedd sydd os yn bosib yn meddu ar brofiad o weithio yn y Sector Gwirfoddol. Mae angen pobl arnom ni sy'n dymuno gweld y Sector Gwirfoddol yn datblygu mewn modd cadarnhaol ac adeiladol a fydd yn fodlon cynnig eu hamser, gwybodaeth a phrofiad i gefnogi gwaith y mudiad. Buasai'r sgiliau a phrofiad canlynol yn ddefnyddiol: cefnogi staff a gwirfoddolwyr, rheolaeth ariannol, hyfforddiant, llywodraethu, cynllunio strategol, marchnata/cyhoeddusrwydd, codi arian a materion yn ymwneud ag anableddau ynghyd â chysylltiadau da gyda chymunedau a gwasanaethau lleol. Hoffai FLVC hefyd elwa o ymddiriedolwyr sy'n meddu ar brofiad entrepreneuriaidd a busnes.

Paul Hinchliffe
Cadeirydd FLVC



Paul Hinchliffe Chair FLVC

ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn rhwydwaith o fudiadau cefnogi ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru. Ein nod ar y cyd ydy gofalu bod modd i'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ledled Cymru weithio er lles unigolion a'r gymuned, heddiw ac yn y dyfodol.



Ann Woods -
Prif Swyddog FLVC

Croeso i Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint – eich cangen leol o Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Dyma fy chweched flwyddyn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol FLVC ac rydw i'n parhau i gael fy synnu gan greadigrwydd, ymroddiad a pharodrwydd y sector Gwirfoddol a Chymunedol. Yma yn FLVC, rydym yn falch o gynrychioli'r Trydydd Sector ac rydym yn parhau i chwilio am ffordd i wella ansawdd a chost-effeithiolrwydd ein gwasanaeth. Yn gyffredinol, mae ein gwaith yn ymwneud â'r meysydd canlynol

- Gwirfoddoli
- Llywodraethu Da
- Cyllid Cynaliadwy
- Cydweithio a Dylanwadu

Yn yr adroddiad Blynyddol hwn, fe welwch ychydig o'n cyflawniadau yn ymwneud â'r meysydd hyn yn ystod 2018/19.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn inni Weithredu Heddiw er mwyn Gofalu Gwell Yfory. Mae'r grwpiau ac unigolion hynny y mae'n ffrainth gennym ni gydweithio gyda nhw yn mynd ati i wneud yn union hynny. Maen nhw'n gweithredu yn naturiol, yn reddfodol ac yn atebol er mwyn gwella bywydau pobl eraill. Os hoffech chi ychwanegu'ch sylwadau chi at adroddiadau'r Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch sut gall Wasanaethau Cymdeithasol a chymunedau gefnogi lles ein plant ac wyrion ac wyresau yn y dyfodol, mae cyfle ichi wneud hynny yma <https://futuregenerations.wales/work/our-future-wales/>

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus aml-asiantaeth yn parhau i adolygu Cynllun Llesiant Sir y Fflint (sy'n ymateb i'r Ddeddf Llesiant y Dyfodol). Bu imi ymuno gyda chydweithwyr y Sector Cyhoeddus o asiantaethau partner i gyflawni cwrs addysg gan Brifysgol Glyndŵr. Bu inni ddysgu sut i wella a datblygu sgiliau Arweinyddiaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ynghyd â bwrw golwg

ar ddulliau creadigol o fynd i'r afael â materion cymhleth.

Rydym yn parhau i gydweithio ar lefel rhanbarthol gyda chydweithwyr o holl Gyngorau Gwirfoddol Sirol Gogledd Cymru. Rydym yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer cyflwyno tystiolaeth o Werth Cymdeithasol. Drwy gydweithio gyda grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru, bu inni geisio mynd ati i ddylanwadu comisiynwyr i gymryd yr awenau dros fuddion ehangach Gwasanaethau Cefnogi'r Trydydd Sector. Mae angen mynd ati i roi Strategaethau'r Trydydd Sector a Pholisïau Gwerth Cymdeithasol ar waith. Rydym yn aelodau o Gymuned Ymarferol Rhagnodi Cymdeithasol Gogledd Cymru ac yn cydweithio gyda chydweithwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir y Fflint i ddatblygu adnoddau yn ymwneud â Rhagnodi Cymdeithasol. Felly rydym yn ceisio rhoi unigolion ar ben ffordd gydag adnoddau yn eu cymunedau a all helpu i gynnal eu lles.

Mae ein Cynlluniau Gwirfoddoli gyda Chefnogaeth yn parhau i gynnig cam tuag at wirfoddoli i'r rheiny fuasai o bosib ddim yn ddigon hyderus i fanteisio ar gyfleoedd o'r fath fel arall. Os ydych chi'n ymwybodol o unigolyn fuasai'n elwa o'r gefnogaeth, cofiwch gysylltu gyda ni.

Mae croeso i grwpiau Trydydd Sector sy'n gweithio yn Sir y Fflint gysylltu gyda ni ynghylch unrhyw fater yn ymwneud â chynnal eu mudiad. Os na allwn ni eich helpu, byddwn yn ceisio dod o hyd i rywun fydd yn medru. Os hoffech chi help gyda pholisïau, ymarfer da, cyllid neu os ydych chi'n dymuno cynnal sgwrs gyffredinol am eich mudiad, rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych chi.

Ann Woods - Prif Swyddog FLVC
01352 744028
ann.woods@flvc.org.uk

GWIRFODDOLI

- **Rhwydweithiau a Chyfathrebu**

Rydym yn gweithredu fel sianel i rannu gwybodaeth, deallusrwydd ac arfer dda i gefnogi gwelliant parhaus mewn arferion gwirfoddoli..

- **Recriwtio Gwirfoddolwyr a Lleoliadau Gwirfoddoli**

Rydym yn hwyluso'r broses o adnabod, datblygu a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli o safon uchel sydd ar gael ac ynparu gwirfoddolwyr gyda rolau addas.

- **Rheoli Gwirfoddolwyr**

Rydym yn cefnogi sefydliadau i hyrwyddo'r manteision cyffredin o wirfoddoli.

- **Grantiau**

Rydym wedi rhoi cefnogaeth i ddatblygu'r capasiti i recriwtio a chefnogi sail wirfoddoli gadarn.

- **Cydnabyddiaeth a Gwobrwyo**

Rydym yn helpu i godi proffil cyrhaeddiad gwirfoddolwyr unigol a'u cyfraniad ar y cyd at les a chydlynid Cymru.



Olywnion i Baub yng Nglannau Dyfrdwy



Tim Canolfan Wirfoddoli FLVC



Ein Hiard Gefn

Beth wnaethom lwyddo i'w wneud?

- ✓ Daeth 120 o bobl i'n digwyddiad Dathlu Gwirfoddolwyr Volfest ym mis Mehefin 2019. Cafodd 210 tystysgrif cyrhaeddiad eu cyflwyno.
- ✓ Bu 3 Fforwm Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn gyda 37 sefydliad yn mynychu er mwyn hyrwyddo a recriwtio gwirfoddolwyr.
- ✓ Bu 4 Fforwm Rhwydwaith Gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn gyda 58 person yn mynychu..

- ✓ Bu i'n prosiectau gwirfoddoli gyda chefnogaeth helpu 85 person (gydag anghenion cefnogi ychwanegol) i ennill cymwysterau achrededig a chymryd rhan mewn sesiynau rhoi cynnig ar wirfoddoli ar draws Sir y Fflint.
- ✓ Cafodd 34 sefydliad o Sir y Fflint gefnogaeth i ddatblygu arfer dda mewn rheoli gwirfoddolwyr.
- ✓ Aeth y tîm i dros 150 oddigwyddiadau / cyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwirfoddoli ar draws Sir y Fflint.



gwirfoddolwyr yn cadw 'r llwybr arfordirol yn lân

• Camu Fyny Camu Ymlaen

Trwy ein prosiect gwirfoddoli gyda chefnogaeth gaiff ei gynnal mewn cydweithrediad gyda Mind Gogledd-ddwyrain Cymru, rydym wedi cynnig sesiynau / lleoliadau rhoi cynnig ar wirfoddoli a chymwysterau achrededig i unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau.

Bu i 100% o'r bobl wnaeth gymryd rhan roi'r sgôr uchaf o ran cyflawni'r deilliannau hyn.

- Diogel
- Iach
- Cyflawni
- Gyda chefnogaeth
- Gweithgar
- Parchus
- Cyfrifol
- Cynwysedig

Dyfyniad gan fuddiolwr :

“Hyder i adeiladu ar hyder i wybod bod modd dringo'r mynydd sydd o'm blaen (teimlo felly) yn araf bach.”

• Camu Fyny i Wirfoddoli

Dyma ein prosiect gwirfoddoli gyda chefnogaeth i bobl gydag anableddau dysgu ysgafn a/neu Anhwylderau'r Sbectrwm Awstistiaeth.

Dyfyniad gan un oedd yn cymryd rhan yn y prosiect: 'Mae gwirfoddoli wedi gwneud gymaint imi. Mae wedi fy helpu i gamu ymlaen mewn bywyd. Ni fuaswn i yn yr adeilad yma (lleoliad gwirfoddoli annibynnol) oni bai am y cwrs yma. Mae wedi estyn fy ngorwelion ac rydw i wedi gallu ei gynnwys ar fy CV. '

Yn ystod blwyddyn ariannol 2018/2019, bu i 75% o'r bobl oedd yn cymryd rhan dderbyn achrediad gan Addysg Oedolion Cymru ar Lefel 1 (gan Agored Cymru). O'r 30 o bobl wnaeth gymryd rhan yn y cyrsiau gwirfoddoli gyda chefnogaeth, bu i 95% symud ymlaen at gyfle annibynnol trwy gefnogaeth gan staff y Ganolfan Wirfoddoli. Roedd y cyfleoedd hyn yn cynnwys cyfleoedd gwirfoddoli annibynnol, addysg uwch, cyrsiau eraill gyda chefnogaeth, lleoliadau gwaith a gwaith gyda thâl.

Yn ystod y broses gwerthuso bu i 100% o'r bobl oedd yn cymryd rhan ddweud wrthym ni eu bod nhw wedi gwneud



Celfyddydau Cymunedol Emerge

ffrindiau newydd, 100% ohonyn nhw wedi magu hyder a 95% ohonyn nhw wedi dysgu sgiliau newydd. Bu i'r holl bobl oedd wedi cymryd rhan ddweud eu bod wedi rhoi cynnig ar wahanol fathau o wirfoddoli.

• Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Roedd FLVC yn falch o gyflawni Marc Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ydy'r marc ansawdd ledled Prydain ar gyfer sefydliadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr. Mae'n ceisio gwella ansawdd profiad gwirfoddoli i wirfoddolwyr ac annog sefydliadau i adnabod yn well y cyfraniad enfawr y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud. Caiff Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ei reoli yng Nghymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Cafodd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) ei asesu yn erbyn nifer o safonau arfer orau gan brofi ei gymhwyster ym mhob agwedd o weithio gyda'i wirfoddolwyr ei hun.

Dywedodd Jan Owen, Rheolwr Gwirfoddoli FLVC...

“Mae'n wych gweld bod mwy o bobl yn gwirfoddoli ac yn cymr rhan mewn gweithgareddau cymunedol bob blwyddyn yn Sir y Fflint. Mae'n ein hysbrydoli wrth weld pa mor barod ydy pobl i helpu pobl eraill. Mae bod yn rhan fach o hyn wirioneddol yn fraint.”



ODEL Involve yn derbyn Gwobr yr Uchel Siryf

LLYWODRAETHU DA

• Gwybodaeth a Chyngor

Rydym yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac offer i weithredu llywodraethu da a galluogi gwelliant parhaus.

• Dysgu a Datblygu

Rydym yn rhoi cymorth ymarferol i'n hymddiriedolwyr ac aelodau o staff cyflogedig i weithredu yn gyfreithlon ac yn effeithiol

• Hyrwyddo Systemau Sicrhau Ansawdd

Rydym yn helpu sefydliadau i adnabod safonau ansawdd perthnasol a gweithio tuag at eu cyflawni.

• Codi Proffil y Sector

Rydym yn helpu i godi proffil gwerth a chyfraniad y sector i'r gymdeithas yng Nghymru.

BETH WNAETHOM LWYDDO I'W WNEUD?

- ✓ Bu i dros 48,000 o bobl ymweld â'n gwefan ac fe gafodd gwybodaeth ei rhannu gyda sefydliadau trwy e-grwpiau a'n cylchlythyr "Llais Gwirfoddol".
- ✓ Wedi derbyn ac ymateb i 283 o ymholiadau gan ein hymddiriedolwyr.
- ✓ Bu i dros 188 o bobl oedd yn cymryd rhan elwa o 17 cwrs hyfforddiant wedi'u hwyluso gan FLVC dros y flwyddyn.
- ✓ Cafodd 9 sefydliad newydd eu ffurfio gan gynnwys 8 sefydliad corfforedig elusennol cofrestredig. Cafodd llawer iawn mwy eu tywys drwy newid yn eu grŵp gan gynnwys gwelliannau i'w dogfennau llywodraethu.



Tîm Nawdd a Llywodraethu

BETH OEDD EIN HEFFAITH?

Eleni bu inni dderbyn statws ansawdd PQASSO (wedi'i ail-frandio yn ddiweddar yn 'Marc Elusen Dibynadwy') sy'n sicrhau Llywodraethu Da yn ein sefydliad wrth inni gefnogi sefydliadau eraill gyda'u polisiau a'u dulliau gweithredu.

Rydym wedi darparu cefnogaeth gyda Llywodraethu a/neu Cynlluniau Busnes sefydliadau oedd yn dangos diddordeb ym mhroses Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cyngor Sir y Fflint.

“ Dyfyniadau

- Mae FLVC yn rhoi help llaw i unrhyw sefydliad - rydym yn falch iawn o fod yn aelod.
- Roedd cyngor proffesiynol a chymorth ymarferol gan FLVC yn amhrisiadwy.
- Mae cefnogaeth, arweiniad, hyfforddiant a chyngor gan FLVC wedi bod yn bwysig iawn inni wrth inni baratoi at ddod yn gyfansoddiadol ac yn elusen gofrestredig, ac yn ein blwyddyn gyntaf iawn o weithredu. Mae'r staff wedi derbyn sawl argymhelliad da a chyngor i'w tywys nhw ar hyd y daith.

”

NAWDD CYNALIADWY



Heather gyda Chlub Bowlio Llaneurgain

• Gwybodaeth a Chyngor

Rydym yn ceisio gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd i sicrhau nawdd ac adnoddau i ddatblygu capasiti sefydliadau i ddiogelu a chynyddu incwm.

• Dysgu a Datblygu

Rydym yn ceisio gwella sgiliau, gwybodaeth a chapasiti sefydliadau i godi nawdd a'i reoli yn effeithiol.

• Codi Proffil y Sector

Rydym yn cydnabod cyraeddiadau mewn codi arian, rhannu gwybodaeth, arfer dda ac yn meithrin perthynas well gyda noddwyr.

• Derbyn Gwasanaethau Ymarferol a Budd-daliadau

Rydym yn rhoi mynediad i fudd-daliadau sydd wedi'u cytuno yn lleol, rhanbarthol neu genedlaethol ac yn cyfeirio at gefnogaeth / cymorth ymarferol.

• Derbyn Nawdd

Rydym yn helpu sefydliadau i gynyddu eu lefel o incwm, amrywio nawdd a dod yn gynaliadwy yn ariannol.

“**Diolch yn fawr am drefnu'r cyfarfod ffrwythlon. Mae'n mor anodd i gael gyllidwyr mewn un lle.**

Ardderchog, addysgiadol iawn.

”

BETH OEDD EIN HEFFAITH?

Mae FLVC yn gweinyddu cynllun grant Cist Gymunedol Sir y Fflint ar ran Cyngor Sir y Fflint.

Mae'r grant hwn yn ceisio cefnogi mentrau un tro fel prosiectau cyfalaf bach, digwyddiadau cymunedol, offer, cyhoeddusrwydd, marchnata a chysiau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yn Sir y Fflint. Bu 30 grant oedd yn gyfanswm o £19,807.

Cafodd FLVC ei gynrychioli ar y paneli grantiau a gwneud penderfyniadau canlynol:

- Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr
- Cist Gymunedol Chwaraeon Sir y Fflint
- Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint
- Cronfa Gwaddol Cymunedol Sir y Fflint
- Cronfa Gymunedol Banc Burbo
- Cadwyn Clwyd

Hyfforddiant wedi'i deilwra i sefydliadau bach / canolig yn Sir y Fflint gan gynnwys GDPR (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd).

BETH WNAETHOM LWYDDO I'W WNEUD?

- ✓ Eleni bu inni dderbyn 208 ymholiad gan sefydliadau cymunedol a gwirfoddol gan alluogi'r grwpiau hyn i dderbyn £397,082 o wahanol ffynonellau.
- ✓ Cafodd 7 diwrnod gwybodaeth am nawdd eu cynnal.
- ✓ Mae 31 person oedd yn cymryd rhan wedi gallu siarad yn uniongyrchol gyda noddwyr grantiau mewn sesiynau un-i-un wedi'u cynnal mewn partneriaeth gyda FLVC.
- ✓ Bu i 129 grŵp dderbyn cymorth uniongyrchol gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Local Giving, Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr, Chwaraeon Cymru, Cadwyn Clwyd, Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, Cronfa Gymunedol Wheelabrator, Tyfu'n Wylt a Cymru dros Affrica.

CYDWEITHIO A DYLANWADU

- **Gwybodaeth a Chyngor ynghylch Polisiâu**

Rydym yn cynnig cefnogaeth sy'n fodd ichi fanteisio ar gydweithio effeithiol a dylanwad cyrff llywodraethu perthnasol y sector cyhoeddus drwy ddysgu a datblygu perthnasau budd ar y cyd.

- **Llais y Trydydd Sector**

Drwy gynrychioli ar strwythurau llywodraethu'r sector cyhoeddus, neu hwyluso enwebu ac ymwneud gyda chynrychiolydd priodol o'r trydydd sector, gan gynnig heriau, cynrychiolaeth ac atebolrwydd i strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y sector cyhoeddus.

Mae ein rhwydweithiau thematig yn ein helpu i ymwneud gyda gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol – i gysylltu, rhannu gwybodaeth ac ymarfer da ac i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol. Cysylltwch gyda'n swyddfeydd os hoffech chi ymuno gyda ni yn un neu fwy o'r Cyfarfodydd Rhwydweithiau canlynol, wedi'u hwyluso gan staff FLVC.

- Rhwydwaith Gwybodaeth i Ymddiriedolwyr
- Rhwydwaith Llesiant Gogledd Ddwyrain Cymru
- Cyfarfod Rhwydwaith Gwirfoddoli

BETH WNAETHON NI EI CYFLAWNI?

- ✓ Bu inni gynnig Gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth gyffredinol i dros 228 o unigolion (o 1.10.18-30.6.19) mewn grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.
- ✓ Caiff ein e-fwletin Llesiant Gogledd Ddwyrain Cymru ei rannu gyda dros 259 o gysylltiadau pob dydd.
- ✓ Bu i dros 48,000 o bobl ymweld â'n gwefan sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor i grwpiau cymunedol ac ein partneriaid
- ✓ Mae 157 o unigolion yn rhan o Rhwydwaith Llesiant Gogledd Ddwyrain Cymru
- ✓ Swydd Rhagnodi Cymdeithasol Meddyg Teulu newydd (trydydd sector)



SPOA, Un Pwynt Mynediad



Cysylltu gwirfoddoli gydag Addysg Uwch

Rydym yn cynnig gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau i bolisiâu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal ag eitemau eraill o ddiddordeb drwy e-fwletin cyffredinol FLVC a Chrynodeb Llesiant Dyddiol Gogledd Ddwyrain Cymru. Cysylltwch gyda ni os hoffech chi dderbyn yr e-fwletinau hyn.

Rydym yn cynnig cysylltiadau i ac o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gofalu ymateb partneriaeth i Gynlluniau Llesiant. Mae FLVC yn gweinyddu Grŵp Partneriaeth Trydydd Sector Sir y Fflint, fu'n cynnig ymatebion gwybodus i strategaethau lleol a chenedlaethol. Cafodd y grŵp ei sefydlu yn 2018 i helpu cysylltu'r Trydydd Sector ehangach gyda thrafodaethau yng nghyfarfodydd Compact Sir y Fflint – gan gysylltu ymatebion y maes lechyd, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector.

Mae'n ffrainth gennym ni gynrychioli'r Trydydd Sector ar Lefel Strategol, yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar y cyd â'n partneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Mae'n ffrainth gennym ni gynrychioli'r Trydydd Sector ar Lefel Strategol, yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar y cyd â'n partneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Mae FLVC yn cydweithio gyda chydweithwyr fel rhan o Gymuned Ymarfer Rhagnodi Cymdeithasol Gogledd Cymru. Mae gennym swyddi Cydlynedd Trydydd Sector / Rhagnodi Cymdeithasol yn Un Pwynt Mynediad Sir y Fflint a'r Hwb Cymorth Cynnar i Deuluoedd, gan gynnig cefnogaeth aml-asiantaethol ar y safle ynghylch 'Yr hyn sy'n Bwysig' i drigolion Sir y Fflint.

Bu inni gydweithio gyda Mantell Gwynedd (Cyngor Gwirfoddol Sirol Gwynedd) ac ein cydweithwyr o wahanol Gynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Gogledd Cymru i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth Gwerth Cymdeithasol i'n mudiadau Trydydd Sector. Hyn i gyd er mwyn Mesur a Rheoli eu Gwerth Cymdeithasol.

Bu i ein gwaith ar y cyd â Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru (drwy'r Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru (NWSWIC)) ein helpu i gysylltu gyda holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r gofynion yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd hyn er mwyn rhannu eu Polisiâu Gwerth Cymdeithasol ac i gynnig tystiolaeth o sut gallan nhw fanteisio i'r eithaf ar gydweithio gyda mudiadau Gwerth Cymdeithasol.

Bu i ein Tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol (sy'n gweithio yn Sir y Fflint a Wrecsam) gydweithio gydag Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid statudol a Thrydydd Sector eraill ar faterion a blaenoriaethau allweddol gan gynnwys canolbwyntio ar gydweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a chyd-gynhyrchu.

Bu inni arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr yn ein Cyfarfod Blyneddol yn 2018. Ers hynny buom yn cydweithio gyda staff y Brifysgol i gynnig cyfle i ddysgwyr gael blas ar ddichonolrwydd gwirfoddoli i gwblhau eu hastudiaethau, ac i fwrw golwg ar sut gall gwaith yn y Trydydd Sector fod yn ddewis gyrfya posib yn y dyfodol iddyn nhw

Rydym yn cydweithio gyda'n corff cenedlaethol WCVA i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) i gynnal gweithdrefnau arloesol i ymateb i anghenion ein cymunedau a gofalu fod Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn cynnig cefnogaeth effeithiol i'r grwpiau gwirfoddol a chymunedol rydym yn eu cynrychioli.

BETH OEDD EIN HEFFAITH?

Mae Llywodraeth Cymru'n dal yn tybio bod ein gwaith ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint, yn cefnogi grwpiau sydd â diddordeb yn y broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT), yn fodel o ymarfer da.

Buom yn cydweithio gyda'r Rhaglen Gweithredu Cynnar ar y Cyd i geisio mynd i'r afael â gwendid a cheisio lleddfu effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod 'Bu FLVC yn bartner pwysig a hanfodol er mwyn cynnal y rhaglen Gweithredu Cynnar ar y Cyd yn Sir y Fflint ac o ran ysbrydoli pobl i gyflawni gwaith tebyg yn rhanbarthol. Bu FLVC yn rhan ymarferol o waith y rhaglen a bu iddyn nhw ofalu bod partneriaid trydydd sector yn rhan annatod yn cefnogi pobl fregus drwy lwybrau cymorth cynnar. – Arweinydd Partneriaeth, Rhaglen Gweithredu Cynnar ar y Cyd Gogledd Cymru

“ Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol am eu cyfraniad ac i Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint am eu cefnogaeth hynod werthfawr i fudiadau. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint ”



Glyndŵr a FLVC yn arwyddo eu MOU



Step Up Step Out



Gwirfoddoli gyda FLVC



Dathliadau Volfest



Chloe Ann Brooks yn derbyn Gwobr Gwirfoddoli Tom Jones i Bobl Ifanc yn 2018



AGM 2018

CYFRIFON FLVC 2018/19

Datganiad o Weithgareddau Ariannol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth

	Cronfeydd heb eu cyfyngu £	Cronfeydd cyfyngedig £	2019 Cyfanswm cronfeydd £	2018 Cyfanswm cronfeydd £
INCWM A GWADDOLION O				
Gweithgareddau elusennol				
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	98,144	58,386	156,530	156,529
Llywodraeth Cymru	-	69,830	69,830	4,000
Cyngor Sir y Fflint	16,066	140,056	156,122	245,281
Cyrff Cyhoeddus Eraill	-	73,816	73,816	66,550
Cyrff Elusennol	-	7,500	7,500	-
Gweithgareddau masnachu eraill	83,573	15,067	98,640	152,560
Incwm buddsoddi	<u>1,628</u>	<u>-</u>	<u>1,628</u>	<u>610</u>
Cyfanswm	199,411	364,655	564,066	625,530
GWARIANT AR				
Codi arian				
Gweithgareddau masnachu eraill	<u>655</u>	<u>-</u>	<u>655</u>	<u>3,593</u>
	655	-	655	3,593
Gweithgareddau elusennol				
Cyflogau a threuliau staff	92,968	273,736	366,704	405,080
Costau swyddfa	19,343	15,270	34,613	54,435
Treuliau a chostau	26,294	12,759	39,053	16,174
Gwirfoddolwyr a hyfforddiant	1,129	18,423	19,552	22,956
Costau adeilad	91,555	16,547	108,102	90,861
Dibrisiant a gweddill / diffyg ar werthiannau	(1,233)	973	(260)	1,061
Llywodraethu	2,073	2,960	5,033	5,833
Tâl grant: Cist Gymunedol	-	14,405	14,405	19,096
Tâl grant: Grantiau o dan Arweiniad Pobl Ifanc	-	7,466	7,466	3,278
Tâl grant: Cronfa Gymunedol Pobl Ifanc	<u>-</u>	<u>9,000</u>	<u>9,000</u>	<u>-</u>
Cyfanswm	<u>232,784</u>	<u>371,539</u>	<u>604,323</u>	<u>622,367</u>
INCWM NET/(GWARIANT)	(33,373)	(6,884)	(40,257)	3,163
CYMODI CRONFEYDD				
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen	<u>104,831</u>	<u>294,751</u>	<u>399,582</u>	<u>396,419</u>
CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN	<u><u>71,458</u></u>	<u><u>287,867</u></u>	<u><u>359,325</u></u>	<u><u>399,582</u></u>

GWEITHREDOEDD SY'N PARHAU

Mae'r holl incwm a gwariant wedi codi o weithredoedd sy'n parhau.

Daw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol hwn o gyfrifon ariannol archwiledig y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31ain o Fawrth 2019

